


Grwpiau Ffydd a'r System Gynllunio

Nodyn Briffio Polisi


Rhwydwaith Ffydd a Lle AHRC | Gorffennaf 2016
faithandplacenetwork.org



“Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) gymryd amgylchiadau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â materion defnydd tir i ystyriaeth, megis y berthynas rhwng polisiau a chynigion cynllunio ac anghenion a phroblemau cymdeithasol, gan gynnwys effaith debygol polisiau a chynigion ar y gymuned gyfan... Dylai CDLlau ddarparu tir ar gyfer ysgolion, addysg bellach ac uwch, addoldai, cyfleusterau adloniant a chyfleusterau cymunedol eraill

”

Ffigwr 1 – Twf crefyddol yng Nghymru, 2001–2011



Tabl 1 – Newid mewn poblogaeth crefyddol yng Nghymru, 2001–2011 (Cyfrifiad 2001 a 2011)

Crefydd	2001	2011	Newid	% newid
Cristion ^a	2,087,242	1,763,299	-323,943	-15.5
Bwdhydd	5,407	9,117	3,710	68.6
Hindŵ	5,439	10,434	4,995	91.8
Iddew	2,256	2,064	-192	-8.5
Mwslim	21,739	45,950	24,211	111.4
Sikh	2,015	2,962	947	47.0
Crefydd arall	6,909	12,705	5,796	83.9
Dim crefydd	537,935	982,997	445,062	82.7
Ni nodwyd	234,143	233,928	-215	-0.1
Cyfansymiau	2,903,085	3,063,456	160,371	5.5

^a Gostyngodd y boblogaeth Gristnogol yn gyffredinol tua 300,000. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio twf sylweddol o Gristion o dreftadaeth ethnig benodol. Felly, gwelwyd cynnydd yn nifer y Cristion Caribiaidd o 1,810 i 2,513 (38.8%) a chynnydd yn nifer y Cristion Affricanaidd o 1,662 i 7,406 (345.6%). At hyn, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y Cristion o dreftadaeth ethnig rwydd cymysg hefyd yn y cyfnod rhwng y ddau gyfrifiad, gyda'r Cristion o dreftadaeth Gwyn Cymysg a Charibiaidd Du yn cynyddu o 3,526 i 5,198 (47.4%) a'r rheini o dreftadaeth Gwyn Cymysg ac Affricanaidd Du yn cynyddu o 1,306 i 2,248 (72.1%).

Nodyn Briffio yn Fras

Deall Eich Gilydd

- Canllawiau i gynllunwyr ar sut mae grwpiau ffydd yn defnyddio lle a chanllawiau i grwpiau ffydd ar sut mae defnyddio'r system gynllunio.
- Ysgolion cynllunio mewn prifysgolion i fynd i'r afael â'r modd y mae grwpiau ffydd yn defnyddio lle.
- Awdurdodau cynllunio lleol i ymgysylltu â sefydliadau rhyng-ffydd a thraddodiadau crefyddol penodol.
- Cyfeiriadur o grwpiau ffydd a, lle bo llawer o alw, cyfeiriadur o safleoedd dosbarth defnydd D1 i gael eu cynnal.
- Gall rhannu safleoedd o fewn traddodiadau crefyddol a rhyngddynt fod yn fesur addas weithiau, ond mae cyfyngiadau sylweddol i hyn yn ymarferol ac yn ddiwinyddol.
- Grwpiau ffydd i gyfrannu at y gwaith o lunio'r cynllun datblygu lleol ac i gael eu hannog i gymryd rhan yn y gwaith hwnnw.

Grwpiau Ffydd a Chymuned

- Awdurdodau cynllunio lleol i gydnabod daearyddiaeth wahanol cymunedau ffydd, boed yn lleol neu ar wasgar; eu budd i'r ardal; a'u goblygiadau ar gyfer seilwaith cymdeithasol strategol.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Awdurdodau cynllunio lleol i archwilio data ar geisiadau cynllunio i asesu a yw'r cyfraddau gwrthod gwaith cynllunio yn uwch ar gyfer rhai grwpiau ffydd ac i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau posibl os oes anghysondeb.

Rhannu Arferion Creadigol

- Ffeil o astudiaethau achos ar arferion creadigol i gael ei datblygu i'w dosbarthu ymhlith awdurdodau cynllunio lleol, a fydd yn cydnabod yr amrywiaeth o fewn traddodiadau crefyddol a rhyngddynt.
- Angen cynnal arferion creadigol dros amser gan ystyried rolau newidiol o fewn awdurdodau cynllunio lleol.

Y Fframwaith Cynllunio

- Awdurdodau cynllunio lleol i warchod lle ar gyfer seilwaith cymdeithasol, yn cynnwys manau addoli.
- Mae cytundebau adran 106 a'r ardoll seilwaith cymunedol yn ffyrdd dilys o gefnogi'r ddarpariaeth manau addoli.
- Dull rhagweithiol o ddarparu seilwaith cymdeithasol mewn datblygiadau newydd.

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen friffio hon yn amlinellu cyfres o argymhellion, yn deillio o drafodaethau'r Rhwydwaith Ffydd a Lle (FPN). Mae rhifyn Gorffennaf 2016 yn canolbwyntio'n benodol ar gyd-destun Cymru. Cafodd yr FPN, a ddaeth ynghyd i drafod rhwng mis Medi 2014 a mis Hydref 2015, ei ffurfio gyda chefnogaeth grant rhwydwaith gan Gyngor Ymchwil y Cyfryngau a Dyniaethau (AHRC). Mae gan y rhwydwaith amrywiaeth o aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau ffydd, cynllunwyr o'r awdurdod lleol, cynrychiolwyr o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes polisi, sefydliadau cymdeithas sifil ac academyddion.

Ffurfiwyd yr FPN o ganlyniad i ymwybyddiaeth o'r ffaith bod y ddemograffeg grefyddol yn newid a'r heriau a ddaw yn sgil hyn i gymunedau ffydd sy'n chwilio am safle ac i gynllunwyr sy'n gyfrifol am reoleiddio defnydd tir a'r broses o'i ddatblygu. Mae cymunedau ffydd yn aml yn ei chael hi'n anodd cael caniatâd cynllunio ar gyfer safle addas ac mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer grwpiau ffydd sy'n fudwyr ac yn ôl-fudwyr. Cafodd y rhwydwaith ei ysgogi hefyd gan gorff cynyddol o ymchwil ac adroddiadau ar y materion hyn sydd wedi llywio trafodaethau'r rhwydwaith (gweler **Ffynonellau Dangosol**).

Mae rhai grwpiau ffydd wedi cynyddu dros y degawd diwethaf ac maent yn crynhoi'n aml mewn ardaloedd trefol (ONS 2012, Brierley 2014, gweler Tabl 1 a Ffigwr 1). Mae hyn yn rhoi pwysau ar argaeledd mannau addoli addas, gan greu tensiwn weithiau rhwng grwpiau ffydd, awdurdodau cynllunio lleol a chymunedau lleol. Er hyn, yn ôl darpariaethau Polisi Cynllunio Cymru (PCC) o ran Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI), dylai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru baratoi CDLI sy'n:

...cymryd amgylchiadau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â materion defnydd tir i ystyriaeth, megis y berthynas rhwng polisiâu a chynigion cynllunio ac anghenion a phroblemau cymdeithasol, gan gynnwys effaith debygol polisiâu a chynigion ar y gymuned gyfan... Dylai CDLIau ddarparu tir ar gyfer ysgolion, addysg bellach ac uwch, **addoldai**, cyfleusterau adloniant a chyfleusterau cymunedol eraill (ein pwyslais) (PCC, 2016, §2.3.7).

Mae'r FPN a'r nodyn briffio hwn yn canolbwyntio ar rôl grwpiau ffydd a'u mannau addoli o fewn dimensiynau cymdeithasol ehangach defnydd tir. Mae'r argymhellion isod wedi'u targedu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol a grwpiau ffydd, er y cydnabyddir y bydd iddynt oblygiadau ar gyfer nifer o bartïon eraill, yn cynnwys penseiri, y cyfryngau, gwleidyddion lleol/cenedlaethol a sefydliadau cymdeithas sifil.

Rydym wedi trefnu'r argymhellion yn bum thema craidd, sy'n cyfateb i'r prif drafodaethau yn nigwyddiadau'r rhwydwaith, sef: 'Deall eich gilydd', 'grwpiau ffydd a'r gymuned', 'cydraddoldeb ac amrywiaeth', 'rhannu arferion creadigol' a'r 'fframwaith cynllunio'.



Argymhellion Polisi

Deall Eich Gilydd

Mae'r FPN wedi nodi bod angen gwell dealltwriaeth a thrafod rhwng awdurdodau cynllunio lleol a grwpiau ffydd. Gall y ddealltwriaeth hon gael ei gwella drwy'r argymhellion penodol canlynol:

1. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut mae grwpiau ffydd yn defnyddio lle, sy'n cynnwys cydnabod y gwahaniaethau rhwng grwpiau ffydd ac o fewn y grwpiau eu hunain. Er mwyn hwyluso hyn, mae angen sicrhau bod canllawiau penodol ar gael ar sut mae grwpiau ffydd yn defnyddio lle, er enghraifft, drwy ganllawiau cynllunio atodol sy'n adlewyrchu'r sefyllfa grefyddol gyfoes. Gall cydweithio gyda'r cyrff proffesiynol perthnasol a grwpiau ffydd fod o fudd i'r rheini sy'n paratoi canllawiau o'r fath.
2. O gofio arwyddocâd parhaus crefydd yn y gymdeithas Brydeinig (e.e. 60% yn uniaethu gyda chrefydd yng Nghymru; ONS, 2012) dylai ysgolion cynllunio mewn prifysgolion ystyried cynnwys elfen sy'n canolbwyntio ar ddealltwriaeth o sut mae grwpiau ffydd yn defnyddio lle fel rhan o gyrsiâu cynllunio achrededig.
3. Er mwyn cyfathrebu â chyfran sylweddol o'r grwpiau ffydd, argymhellwn y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio nifer o strategaethau ar gyfer ymgysylltu â grwpiau ffydd. Mae grwpiau rhyng-ffydd yn aml yn darparu llwyfan pwerus ar gyfer ymgysylltu â grwpiau ffydd amrywiol. Fodd bynnag, mae llawer o grwpiau ffydd nad ydynt yn ymwneud â fforymau o'r fath, ac oherwydd hynny, mae angen ymgysylltu hefyd â chyrrff sy'n cynrychioli traddodiadau crefyddol penodol.
4. Lle bo llawer o alw am fannau addoli addas, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cynnal cyfeiriadur o'r safleoedd sydd ar gael i grwpiau ffydd eu rhentu neu eu prynu, o fewn y dosbarth defnydd priodol. Yn yr un modd, dylai awdurdod cynllunio lleol fuddsoddi mewn cadw'r cyfeiriaduron diweddaraf o grwpiau ffydd a'u mannau addoli yn eu hardaloedd lleol, er mwyn galluogi cyfathrebu a chyd-drafodaethau mewn perthynas â gweithdrefnau a gofynion cynllunio. Er mwyn cadw cyfeiriaduron o'r fath, bydd angen yr adnoddau priodol.
5. Mae angen i grwpiau ffydd ddeall mwy am y system gynllunio hefyd. Gellid sicrhau hyn drwy gael awdurdodau cynllunio lleol i baratoi canllawiau ar y cyd â grwpiau ffydd a sefydliadau cymdeithas sifil eraill. Dylai'r canllawiau hyn egluro ymarferoldeb y system gynllunio ac amlinellu hefyd sut y gellir defnyddio polisiâu cynllunio i ddiwallu anghenion grwpiau ffydd. Ni ddylai cydweithredu o'r fath, fel yr argymhellwyd gan yr RTPI fwy na 30 o flynyddoedd yn ôl, fod yn broses unffordd (1983: 62-3).
6. Gall rhannu safle o fewn traddodiadau crefyddol neu rhyngddynt fod yn fesur addas os oes pwysau lleol o safbwynt lle. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus mewn rhai achosion a gall profiadau o rannu fel hyn fod yn fuddiol i gymunedau ffydd eraill drwy astudiaethau achos ar arferion creadigol. Fodd bynnag, i lawer o grwpiau ffydd, ni fydd rhannu safle yn ymarferol nac yn gyson â'u credoau diwinyddol. Mae rhannu lle yn aml yn ateb y broblem yn rhannol a/neu dros dro, ac mae angen cofio hyn wrth gynnal asesiad o anghenion.
7. Mae angen i grwpiau ffydd gyfrannu at baratoi cynllun datblygu lleol. Mae cynlluniau datblygu lleol yn elfen allweddol o'r broses gynllunio, sy'n cynnwys polisiâu pwysig ar ddatblygu lleol hirdymor a defnydd tir. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fynd ati i annog grwpiau ffydd i gyfrannu at yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gamau cychwynol y cynllun datblygu lleol.

Grwpiau Ffydd a'r Gymuned

Mae angen egluro'r diffiniad o 'gymuned'. Mae grwpiau ffydd, yn arbennig mudwyr diweddar, yn aml yn ymgynnull i addoli o ardal wasgaredig a all ymestyn y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol. Gall cymunedau gwasgaredig fod yn fuddiol i'w gilydd o ran iechyd, lles, cyfraith a threfn ac felly'n fuddiol i'r ardal ehangach ac i awdurdodau cyhoeddus. Mae hyn yn debygol o fod yn wir hyd yn oed os yw'r budd yn cael ei wasgaru ar draws mwy nag un awdurdodaeth leol ac felly nid yw'n amlwg ar unwaith yn lleol. Felly:

8. Argymhellwn y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod daearyddiaeth wahanol cymunedau ffydd, boed yn lleol neu ar wasgar, a'r gwerth y gall y ddau fath o gymuned ffydd ei gael i ardal (e.e. Furbey et al, 2006; SKIN Rotterdam, 2009). Mae'r gydnabyddiaeth hon yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol feddwl mewn modd cysylltiedig, yn arbennig yn achos rhanbarthau sy'n datblygu mewn dinasoedd, lle bo angen seilwaith strategol yn ogystal â seilwaith cymdeithasol.

Astudiaeth Achos 1 – Tirnod yng Nghymru

Hanes datblygu cymunedau ffydd a mynegiant pensaernïol



Y Shree Swaminarayan Mandir yng Nghymru yw'r deml Hindŵaidd fwyaf a hynaf yng Nghymru, ac mae wedi'i lleoli yn Grangetown, ardal o'r ddinas sy'n dod yn fwyfwy amrywiol o ran ethnigrwydd a chrefydd. Yn wreiddiol, sefydlwyd y deml mewn hen synagog a brynwyd yn 1979. Yna, yn 1993, prynodd y sefydliad dafarn Wyddelig segur yn union gyferbyn â'r safle blaenorol. Yn 2005, cyflwynwyd y cynlluniau i Gyngor Caerdydd er mwyn cynnal rhaglen ehangu a oedd yn cynnwys cynllun pensaernïol uchelgeisiol i fynd ar ben yr adeilad gyda strwythurau cromennog (shikhara) ac elfennau nodedig eraill o ddyluniad teml Isgyfyndol Indiaidd. I gychwyn, gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar sail y ffaith 'nad yw'r ychwanegiadau arfaethedig yn ystyried yr amgylchedd adeiledig o amgylch o ran eu uchder, eu maint na'u deunyddiau arfaethedig' ac y byddent yn 'ddatblygiad ansensitif ac anghydweddus'. Fodd bynnag, arweiniodd trafodaethau dilynol at gymeradwyo'r cynlluniau diwygiedig, gyda gwaith ar y safle yn cael ei gwblhau yn 2007, am £700,000. Talwyd am gryn dipyn o'r gost gan gyfraniadau gan y gymuned Hindŵaidd, er i'r sefydliad gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru hefyd. Dros amser, mae'r strydoedd sy'n amgylchynu'r deml wedi dod yn ganolbwynt poblogaidd i Hindwiaid, er bod yr adeilad wedi dechrau cyflawni rôl gymdeithasol ehangach, sef darparu ystafelloedd cynadleda, cyfleusterau ac ymweliadau addysgol ar gyfer y gymuned gyfagos. Mae hefyd yn hwb rhanbarthol i Hindwiaid ledled Caerdydd a De Cymru.

Astudiaeth Achos 2 – Being Built Together

Hanes Eglwysi Pobl Dduon Newydd yn Llundain

Roedd prosiect Being Built Together yn canolbwyntio ar yr ymgysylltiad rhwng eglwysi pobl dduon newydd a'r awdurdod cynllunio lleol yn ne Llundain (Rogers, 2013). Cododd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd y rhan fwyaf o'r eglwysi yn cynnwys mwyafrifoedd Affricanaidd, Pentecostaidd ac yn gwasanaethu cymunedau gwasgareddig ledled Llundain.

- O fis Mehefin 2013 ymlaen, amcangyfrifwyd bod 240+ o eglwysi pobl dduon newydd yn y fwrdeistref, gyda bron hanner y rhain yn dod o'r un cod post.

- Dyma'r crynodiad uchaf o Gristion Affricanaidd yn y byd y tu allan i Affrica, fwy na thebyg. Mae gan fwrdeistrefi eraill Llundain nifer fawr o eglwysi pobl dduon newydd hefyd ac maent wedi gweld cynnydd cyflym yn eu niferoedd dros y degawdau diwethaf.

- Roedd y safleoedd a oedd ar gael yn y dosbarth defnydd priodol ar gyfer manau addoli yn brin iawn. Roedd y cyfraddau gwrthod caniatâd cynllunio yn peri pryder.

Buddsoddodd Cyngor Southwark amser ac adnoddau i fynd i'r afael â'r problemau allweddol hyn a oedd yn ymwneud â 'ffydd a lle'

yn y fwrdeistref, drwy ariannu gwaith ymchwil, cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus a pharatoi canllaw ar gyfer safleoedd ffydd. Gwnaeth yr adroddiad Being Built Together nifer o argymhellion i gynorthwyo gwelliant parhaus o ran ymgysylltiad y cyngor a grwpiau ffydd, sydd hefyd wedi bod yn arwyddocaol y tu hwnt i'r fwrdeistref.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi 'Dyletswydd Cydraddoldeb' ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'u cyflogeion i sicrhau bod pobl yn y gymdeithas sydd â 'nodweddion gwarchoddedig' sy'n cynnwys 'crefydd' a 'chred' yn cael eu trin yn gydradd. Yn benodol, mae'r Ddyletswydd hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i bolisiau a gwasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus roi 'sylw priodol' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, er mwyn cynnig mwy o gyfle cyfartal ac i feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt. Mae'r 'Ddyletswydd Cydraddoldeb' hon yn yr un mor berthnasol i awdurdod cynllunio lleol ag ydyw i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Mae Cod Ymarfer Proffesiynol RTP1 hefyd yn hyrwyddo cyfle cyfartal i'r rheini mewn categorïau gwarchoddedig, yn cynnwys crefydd (2011: §1d, §3). Yn unol â hynny:

9. Argymhellwn fel rhan o'u rhwymedigaeth i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, y dylai awdurdodau cynllunio lleol archwilio data ar geisiadau cynllunio i asesu a yw'r cyfraddau gwrthod caniatâd cynllunio yn uwch i rai grwpiau ffydd nag i eraill, yn ogystal ag i rai grwpiau eraill â 'nodweddion gwarchoddedig' fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Os oes anghysondeb yn y cyfraddau gwrthod, dylai awdurdodau cynllunio weithredu i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau posibl yn y broses gynllunio.

Rhannu Arferion Creadigol

Nododd yr FPN fod angen cyfathrebu'n fwy a chael mwy o drafodaethau adeiladol o fewn awdurdodau cynllunio lleol a rhyngddynt, er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau ffydd. At hyn, mae tuedd i rai grwpiau ffydd gael eu cynrychioli'n negyddol mewn trafodaethau lleol a chenedlaethol, a phrofwyd bod hyn yn cael effaith ar ymatebion cyhoeddus i geisiadau cynllunio gan rai grwpiau ffydd yn benodol. I unioni hyn, nododd yr FPN fod angen i rai grwpiau ffydd gael cynrychiolaeth fwy cadarnhaol, o safbwynt eu cyfraniadau at ddatblygiad cymunedau lleol, y ddarpariaeth les a chymorth cymdeithasol. Fel y cyfryw, argymhellwn y dylai:

10. Ffeil o astudiaethau achos 'arferion creadigol' gael ei datblygu i'w dosbarthu'n eang ymhlith awdurdodau cynllunio lleol, gyda chefnogaeth a chyfeiriad gan sefydliadau cynllunio a chrefyddol. Dylai'r astudiaethau achos hyn nodi sefyllfaoedd manwl lle y mae polisiau cynllunio wedi cael eu rhoi ar waith yn gadarnhaol ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion grwpiau ffydd.

11. Dylai astudiaethau achos a baratowyd fel rhan o'r ffeil hon adlewyrchu amrywiaeth y grwpiau ffydd, yn cynnwys amrywiaeth mewnol traddodiadau o fewn gwahanol ffydd. Nod yr astudiaethau achos hyn fydd codi ymwybyddiaeth o sut mae pobl o ffydd wahanol yn defnyddio lle, a gallent gynnwys enghreifftiau o grwpiau ffydd yn gweithio gyda'i gilydd i rannu lle. Dylai astudiaethau achos geisio dangos sut mae grwpiau ffydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymunedau lleol a gwasgareddig ac yn eu llywio.

12. Mae angen cynnal arferion creadigol mewn perthynas â grwpiau ffydd dros amser o gofio'r rolau newidiol o fewn awdurdod cynllunio lleol. Er enghraifft, gall hyn fod ar ffurf canllawiau mewnol i sicrhau bod arbenigedd sydd wedi cronni yn gallu cael ei drosglwyddo.

Y Fframwaith Cynllunio

Yn ogystal â mynd i'r afael â sut gellir defnyddio'r broses gynllunio'n fwy hyblyg, nododd yr FPN nifer o feysydd polisi a chyfraith gynllunio y gellid eu hadolygu, gyda'r nod o liniaru'r anawsterau a wynebri gan grwpiau ffydd wrth ddelio â'r system gynllunio. Ar yr amod nad yw'n andwyol i'r budd cyhoeddus ehangach, argymhellwn y canlynol:

13. O gofio pa mor brin yw'r safleoedd nad ydynt yn rhai preswyl (h.y. dosbarth defnydd D1) mewn llawer o'n trefni a'n dinasoedd, dylai awdurdodau cynllunio lleol flaenoriaethu gwarchod lle ar gyfer seilwaith cymdeithasol, yn cynnwys manau addoli. Dylid ystyried hyn hefyd mewn unrhyw adolygiad o ddsbarthiadau defnydd yn y dyfodol.

14. Dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod dilysrwydd cynnwys manau addoli mewn cytundebau adran 106 ar gyfer datblygiadau newydd. Gellir defnyddio ardoll seilwaith cymunedol hefyd i gefnogi'r ddarpariaeth manau addoli.

15. Dylai awdurdodau cynllunio lleol asesu'r anghenion o ran seilwaith cymdeithasol sy'n deillio o ddatblygiadau newydd, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer manau addoli. Bydd ymagwedd o'r fath yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i symud ymhellach tuag at ddull rhagweithiol o ddarparu anghenion. Er enghraifft, gellid cyflawni hyn drwy ddyrannu isafswm lle fesul poblogaeth y tu hwnt i derfyn penodol, fel y gwelwyd yn yr astudiaethau achos ar arferion creadigol (e.e. Cambridgeshire Horizons, 2008), ac fel sy'n wir yn achos mathau eraill o ddefnydd tir.



Bydd y canllaw hwn yn cael ei groesawu'n fawr, a'i werthfawrogi'n arbennig gan grwpiau ffydd nad ydynt yn ddigon ffodus i gael cefnogaeth adrannau eiddo sefydliadol, yn ogystal â chynllunwyr sy'n ceisio cael dealltwriaeth well o'r anghenion a'r posibilïadau o fewn eu cymunedau.

– *Y Parchedigaef Barry Morgan, Archesgob Cymru ac Esgob Llandaf (am ddatganiad llawn, ewch i faithandplacenet.org)*

Rydym yn falch iawn ein bod wedi cyfrannu at greu [y nodyn briffio] hwn gan ei fod yn ddarn o waith hynod bwysig ac amserol y dylai cynllunwyr a chymunedau ffydd ei ddarllen. Mae'n helpu cynllunwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud y dewisiadau mwyaf hyddysg i greu llefydd gwych i gymunedau fyw, gweithio a chwarae - yn cynnwys manau addoli. Credwn ei fod yn ganllaw da ar gyfer trafodaethau rhwng grwpiau ffydd ac awdurdodau lleol ar sut mae defnyddio lle a bod yn rhan o'r system gynllunio.

– *Kathie Pollard, Cynghorydd Polisi a Rhwydweithiau, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)*

Mae hwn yn ddarn o waith amserol a thrawiadol gan y Rhwydwaith Ffydd a Lle. Bydd yn dileu rhywfaint o'r ddrwgdybiaeth sy'n bodoli rhwng cynllunwyr ac arweinyddion ffydd, gan eu galluogi i ddeall yn well y rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n rhan annatod o'r broses gynllunio.

– *Dr R David Muir, Cyd-gadeirydd, Fforwm Cenedlaethol Arweinyddion Eglwysi: A Black Christian Voice*

Ffynonellau Dangosol

- Brierley, P., (2014), *UK Church Statistics No 2 2010–2020*, Tonbridge: ADBC.
- CAG Consultants, LUC, Diverse Ethics, (2013), 'Northampton Faith Communities Profile and Places of Worship Audit & Needs Assessment', Available: https://www.northampton.gov.uk/info/200024/consultations/1765/current_consultations [Accessed 23rd June 2015].
- Cambridgeshire Horizons, (2008), *Facilities for Faith Communities in New Developments in the Cambridge Sub-Region: Executive Summary*, Cambridge: Three Dragons.
- East of England Faiths Council CIC, (2012), 'Faith in New Developments: Partnerships, People and Places', Available: <http://www.faihtneteast.org.uk/pdf/Partnerships,%20People%20and%20Places%20Faith%20in%20New%20Developments.pdf> [Accessed 22nd June 2015].
- Furbey, R. et al., (2006), 'Faith as Social Capital: Connecting or Dividing?', *Joseph Rowntree Foundation*, Available: <http://www.jrf.org.uk/publications/faith-social-capital> [Accessed 28th June 2015].
- Gale, R., (2004), 'The Multicultural City and the Politics of Religious Architecture: Urban Planning, Mosques and Meaning-Making in Birmingham, UK', *Built Environment* 30(1), pp. 30–44.
- Gale, R., (2008), 'Locating religion in urban planning: beyond 'race' and ethnicity?', *Planning, Practice and Research*, Vol. 23, No. 1, pp. 19–39.
- Gale, R. and H. Thomas, (2015), 'Multicultural planning in twenty-first century Britain', in Buryadi, M. (ed.), *Cities and the Politics of Difference: Multiculturalism and Diversity in Urban Planning*, Toronto: University of Toronto Press, pp. 109–131.
- Peach, C. and R. Gale, (2003), 'Muslims, Hindus and Sikhs in the new Religious Landscape of England', *The Geographical Review*, Vol. 95, No. 4, pp. 469–490.
- Office for National Statistics, (2012), 'Religion in England and Wales 2011', Available: <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census/key-statistics-for-local-authorities-in-england-and-wales/rpt-religion.html> [Accessed 22nd June 2015].
- Rogers, A., (2013), *Being Built Together: A Story of New Black Majority Churches in the London Borough of Southwark*, London: University of Roehampton.
- RTPI / CRE, (1983), *Planning for a Multi-Racial Britain: Report of the Royal Town Planning Institute / CRE Working Party*, London: Commission for Racial Equality.
- RTPI, (2011), 'The Royal Town Planning Institute Code of Professional Conduct', RTPI, Available: http://www.rtpi.org.uk/media/831098/code_of_professional_conduct_2012.pdf [Accessed 7th September 2015].
- SKIN Rotterdam, (2009), 'Blessings under pressure: The work of migrant churches in the city of Rotterdam – "you are a gift to the city"', Available: <http://www.skinrotterdam.nl/wp-content/uploads/2013/04/Blessings-Under-Pressure.pdf> [Accessed 22nd June 2015].
- Thomas, H., (2000), *Race and Planning: The UK Experience*, London: UCL Press.
- Welsh Government, (2016), 'Planning Policy Wales (Edition 8)', Available: <http://gov.wales/docs/desh/publications/160104planning-policy-wales-edition-8-en.pdf> [Accessed 7th July 2016].
- Picture credits** (in page order, left to right): Mrs spreadinformation; Talsarnau Times; Mick Lobb; Andrew Davis; Merthyr Tydfil; Chris Andrews; Mick Lobb; Oosoom; John Lord; Jaggery; Rept0n1x; Author; Author.

Aelodau o'r Rhwydwaith Ffydd a Lle

Caiff rhwydwaith Ffydd a Lle AHRC ei arwain gan Dr Andrew Rogers (Prifysgol Roehampton) a Dr Richard Gale (Prifysgol Caerdydd). Caiff ei ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau. Am restr lawn o'r bobl a'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu at y rhwydwaith hwn, ewch i'n gwefan: <http://faithandplacenet.org/networkmembers/>